

Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

Annwyl riant/gofalwr,

Wrth i ni agosau at wyliau hanner tymor y Sulgwyn hoffwn eich diweddarau ar ddatblygiadau yn yr ysgol a rhannu rhai dyddiadau allweddol gyda chi.

Arholiad TGAU adolygu Sulgwyn.

Da iawn i flynyddoedd 10 ac 11 sydd wedi dechrau eu harholiadau TGAU ac yn gweithio'n galed i baratoi ar gyfer pob arholiad. Byddwn yn cynnal rhaglen adolygu dros wyliau'r Sulgwyn. Mae disgyblion yn ymwybodol o'r rhaglen ac os ydych yn rhiant neu'n ofalwr i ddisgybl ym mlynnyddoedd 10 neu 11, gofynwn i chi wneud bob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn/plant yn mynychu pob un o'r sesiynau adolygu sy'n berthnasol iddynt. Mae'r rhaglen hefyd i'w gweld ar ein tudalennau facebook neu drwy ddilyn y ddolen isod.

I'ch atgoffa y bydd Blwyddyn 11, ar ôl hanner tymor, ond yn mynychu'r ysgol pan fydd ganddynt arholiadau wedi'u hamserlennu neu sesiynau adolygu cyn arholiad.

[Half term revision timetable year 10 and 11.docx](#)

Rhodd Gwisg Ysgol.

Peidiwch â'i Waredu, Rhowch i YBG! Efallai eich bod wedi gweld ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan ein bod yn gofyn unwaith eto i ddisgyblion sy'n ein gadael yn yr haf i gyfrannu unrhyw hen wisg neu git Addysg Gorfforol i'r ysgol, yn hytrach na'i daflu. Bydd dillad rhodd yn cael eu defnyddio i gefnogi teuluoedd sy'n cael trafferthion ariannol i gynnal neu amnewid gwisg eu plentyn/plant yn ystod y flwyddyn academaidd. Diolch i bawb sydd wedi rhoi yn barod. Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi rhagor o fanylion.

<https://tinyurl.com/mt9apcm8>

Presenoldeb.

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael y budd mwyaf o'r addysg a ddarperir. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mynychu'n dda ac mae ein canlyniadau TGAU yn adlewyrchu'n agos ein cyfraddau presenoldeb da. Mae ein cyfradd presenoldeb ysgol gyfan ar hyn o bryd bron yn 92%, ac er ei fod yn parhau i fod yn ddarlun sy'n gwella, a'n bod yn cymharu'n dda ag ysgolion eraill, mae hyn yn dal yn is na'r lefelau cyn-bandemig. Rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i dargedu absenoldebau cyson rhai disgyblion a byddwn yn parhau i atgoffa pob rhiant/gofalwr a'u plentyn/plant o bwysigrwydd presenoldeb da. A fydddech cystal â'n cefnogi i sicrhau bod eich plentyn/plant yn gwneud pob ymdrech i fynychu'r ysgol. **Nodyn i'ch atgoffa na ellir rhoi caniatâd ar gyfer ceisiadau gwyliau canol tymor oni bai bod amgylchiadau teuluol penodol, y tu allan i reolaeth y disgybl, i wneud hynny (e.e. priodas teuluol neu angladd).**

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT

Rhif ffôn/Tel: 01348 872268

E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com



Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

Offer.

Rydym yn gweld nad yw lleiafrif o ddisgyblion yn dod ag offer fel beiros, pensiliau a phren mesur i'r ysgol. Mae offer sylfaenol fel hwn yn gwbl angenrheidiol i sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud a chwblhau'r gwaith gosod ac i sicrhau eu bod yn perfformio hyd eithaf eu gallu. Gofynnwn yn garedig i chi wneud yn siwr bod gan eich plentyn/plant yr offer angenrheidiol.

Dyddiadau allweddol ar gyfer yr hanner tymor nesaf.

Dydd Llun Mai 27ain – Wythnos Hanner Tymor y Sulgwyn

Dydd Llun Mehefin 3ydd – Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol

Dydd Gwener Gorffennaf 5ed – Diwrnod HMS ychwanegol – dim ysgol i ddisgyblion

Dydd Iau 11eg Gorffennaf – Mabolgampau'r ysgol

Dydd Iau 18fed Gorffennaf – Diwrnod olaf y tymor a diwrnod y teithiau (blynnyddoedd 7-10)

Yn dilyn hanner tymor y Sulgwyn, bydd Blwyddyn 9 yn dechrau gyda'u hamserlen opsiynau TGAU.

Gwefan yr Ysgol.

Rydym wedi bod yn gweithio i ddiweddarau gwefan yr ysgol ac y byddwn yn ei lansio ar ôl hanner tymor. Bydd y wefan newydd yn cynnwys gwybodaeth allweddol am yr ysgol, gan gynnwys ein holl bolisiau, map cwricwlwm a gwybodaeth i'ch galluogi chi fel rhieni/gofalwyr i gefnogi dysgu eich plentyn/plant ym mhob maes pwnc. Bydd y wefan hefyd yn cynnwys calendr wythnosol o ddigwyddiadau a fydd, gobeithio, yn ddefnyddiol i chi.

Yn olaf, pob lwc i'n holl ddisgyblion sy'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yr wythnos nesaf ym Meifod, Powys, ac i'r rhai a fydd yn cynrychioli Sir Benfro ym Mhencampwriaethau Athletau Dyfed ar y 5ed o Fehefin.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Dymunwn Sulgwyn diogel a phleserus i chi.

Paul Edwards

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT

Rhif ffôn/Tel: 01348 872268

E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com

